# Yr wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu Niwroamrywiaeth



## Geiriau anodd



Mae rhai geiriau anodd yn yr adroddiad hwn.

Dyma ystyron y geiriau:



**System cyfiawnder troseddol**






Gwasanaethau fel:

- Yr Heddlu
- Llysoedd
- Carchar
- Gwasanaeth Prawf

ydy'r System Cyfiawnder Troseddol.

Mae llawer o bobl yn dweud neu'n ysgrifennu SCT pan fyddan nhw'n golygu'r system cyfiawnder troseddol.

**SCT**





Oherwydd mae SCT yn:

- Haws ei ddarllen.
- Dyna beth mae pobl yn ei ddweud.
- Dyna beth sy'n cael ei ysgrifennu.

Rydyn ni'n defnyddio SCT yn yr adroddiad. 1



## Niwroamrywiaeth



Mae niwro yn ymwneud â’r ymennydd.

Mae amrywiaeth yn ymwneud â gwahaniaeth.









Gall pobl niwrowahanol fod ag:

- Awtistiaeth.
- Anableddau neu anawsterau dysgu.
- ADHD (Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd).
- Anawsterau iaith a lleferydd.
- Anhwylderau tic.
- Anafiadau i’r ymennydd.



**Cymorth sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn**

Sef cymorth sy’n cael ei rhoi i gyd-fynd â dymuniadau ac anghenion unigolyn.



**Mae'r adroddiad yn sôn am grwpiau a thimau mawr. Dyma rai ohonyn nhw:**

**Y Swyddfa Gartref**

Rhan o'u gwaith ydy lleihau troseddu a'r niwed y mae troseddu yn ei wneud.

**Y Weinyddiaeth Gyfiawnder**


Nhw sy'n arwain y gwaith ar lysoedd, carchardai a'r gwasanaeth prawf.

**Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi**

Nhw sy'n gofalu am lysoedd a thribiwnlysoedd.

**Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi**

Nhw sy'n rhedeg y carchardai a'r gwasanaethau cymunedol y mae llysoedd yn anfon pobl atyn nhw.



**Arolygwyr**

Arolygwyr ydy pobl sy'n gwirio sut y mae gwasanaethau'n gweithio. Maen nhw'n gweithio mewn Arolygiaethau.

**Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi**
Nhw sy'n archwilio carchardai.

**Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi**
Nhw sy'n gwirio gwasanaethau prawf.

**Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
Nhw sy'n arwain cynlluniau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Nhw sy'n gofalu am y GIG yn Lloegr.

**Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol**
Nhw sy'n rhoi cymorth a chyngor am y gyfraith yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn helpu pobl gyda'u problemau cyfreithiol.


**Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub**
Nhw sy'n gwirio'r Heddlu, a'r Gwasanaethau Tân ac Achub.




## Beth sydd dan sylw yn yr adroddiad



Weithiau, bydd angen cymorth ar bobl oherwydd eu niwrowahaniaeth.



Efallai y bydd angen cymorth arnyn nhw gyda'u hiechyd meddwl hefyd.





Dylai pob cymorth fod yn addas ar gyfer yr unigolyn. Dylai edrych ar eu holl anghenion.







Gall hyn gynnwys pethau fel cyfathrebu, perthnasoedd, dysgu pethau newydd ac ymdopi â'r byd o'u cwmpas.




Yn 2021, cafodd adroddiad mawr ei gyhoeddi gan y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf. Gyda chymorth gan arolygwyr o'r Heddlu a'r Gwasanaethau Tân ac Achub.





Roedd yr adroddiad mawr yn trafod sut i roi mwy o gymorth i bobl niwrowahanol yn y SCT.





Dwedodd yr adroddiad wrth y Llywodraeth am 6 syniad i wella pethau.





Ar ôl yr adroddiad, ysgrifennwyd cynllun gweithredu. Roedd hwn yn dweud beth fyddai'n cael ei wneud a phwy fyddai'n gwneud hynny.




Mae'r daflen hon yn dweud wrthych am 6 mis cyntaf y cynllun gweithredu.
Mae'n dweud wrthych:




- Am bob syniad.




- A oedd y llywodraeth yn cytuno â'r syniadau.
- Beth sydd wedi digwydd yn y 6 mis diwethaf.



- Beth fydd yn digwydd nesaf.




# Syniad 1 - Gweithio gyda'n gilydd





Dwedodd yr adroddiad fod angen i'r bobl yma weithio gyda'i gilydd i ysgrifennu cynllun i wella pethau:


- **Y Weinyddiaeth Gyfiawnder**
- **Y Swyddfa Gartref**
- **Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
- **Yr Adran Addysg**
- **Llywodraeth Cymru**



Mae angen ysgrifennu'r cynllun hwn gyda phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o niwroamrywiaeth a'r SCT.



## A oedd y Llywodraeth yn cytuno â'r syniad?



Roedden nhw'n cytuno'n rhannol â'r syniad.




Cytunodd y Llywodraeth fod cydweithio yn bwysig.





Does dim angen cynllun mawr newydd sbon ar hyn o bryd. Y rheswm am hyn ydy bod llawer o anghenion pobl niwrowahanol yn ymddangos mewn cynlluniau eraill yn barod.




Roedden nhw eisiau cael cynllun bach a oedd yn cynnwys pethau nad oedd ddim yn cael eu gwneud yn barod.

## Sut mae pethau'n mynd?





Dyma'r cynlluniau eraill:

- Llunio'r Cynllun Gweithredu Cymorth Cywir.
- Adnewyddu'r Strategaeth Awtistiaeth.
- Papur Gwyn y Strategaeth Carchardai.




Bydd y camau gweithredu yn y cynlluniau hyn hefyd yn sicrhau bod pobl niwrowahanol yn cael y cymorth cywir.

## Beth arall sy'n digwydd?






Mae grŵp o bobl o wahanol rannau o'r Llywodraeth wedi cyfarfod 4 gwaith. Yn yr adroddiad hwn, rydyn ni'n galw'r grŵp hwn yn Grŵp y Llywodraeth.



Mae hyn wedi helpu i wneud yn siŵr fod iechyd, carchardai, y gwasanaeth prawf, y llysoedd a'r heddlu yn gweithio gyda'i gilydd.

check



Maen nhw wedi edrych ar beth sydd angen ei wneud.



Byddan nhw’n gwneud yn siŵr fod y pethau sydd yn y cynllun gweithredu hwn yn cael eu gwneud.

working group



Edrychodd grŵp arall ar beth sy’n digwydd ar bob cam yn y System Cyfiawnder Troseddol. Yn yr adroddiad yma, yr enw ar y grŵp yma ydy Gweithgor.

Fe wnaethon nhw edrych ar bethau fel:





- Yr Heddlu.
- Llys.





- Carchar.
- Gwasanaeth Prawf.





- Rhyddhau.
- Gwasanaethau cymunedol.




Fe wnaeth y Gweithgor ddarganfod bod llawer yn digwydd yn barod i wella pethau.

Daeth y Gweithgor o hyd i bethau eraill yr oedd angen eu gwneud. Fe wnaethon nhw greu cynllun i wneud y rhain.




Dyma rai pethau sydd wedi cael eu gwneud hyd yma:




- Mae'r Heddlu yn casglu enghreifftiau o waith da. Bydd hyn yn rhoi syniadau i bawb am sut i gefnogi pobl niwrowahanol yn dda.

HM Courts & Tribunals Service




- Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi wedi ysgrifennu cynllun cyfeirio. Mae hyn yn dangos sut maen nhw'n helpu pobl i gael cymorth gan lefydd eraill.




- Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.


Byddan nhw'n gwneud yn siŵr fod pobl niwrowahanol yn cael y cyngor angenrheidiol a chymorth i ddeall y Llys a Dedfrydu.




Byddan nhw'n dweud beth fydd angen ei wneud erbyn yr wybodaeth ddiweddaraf nesaf.




- Mae 48 o Reolwyr Cymorth Niwroamrywiaeth newydd yn y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf.







Erbyn 2024, bydd Rheolwr Cymorth Niwroamrywiaeth ym mhob carchar yng Nghymru a Lloegr.








Mae'r rheolwyr yma yn helpu i wneud yn siŵr fod y carchar yn gwybod am bobl niwrowahanol yn y carchar, a'u bod yn rhoi cymorth priodol iddyn nhw.







Mae'r Rheolwyr Cymorth Niwroamrywiaeth yn cael help i weithio gyda'i gilydd ac i roi pethau ar waith. Mae'r help ar gael gan dîm ym mhrif swyddfa Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi.




Mae carchardai'n cael eu hannog i gael eu Achrediad Awtistiaeth. Mae hyn yn debyg i gymhwyster. Mae'n dangos i garchardai sut i gefnogi pobl awtistig yn dda.





Mae 4 carchar eisoes wedi pasio.

Mae 14 wrthi'n gweithio tuag ato.



- Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhoi cynnig ar adnoddau newydd.

Bydd yr adnoddau’n helpu pobl niwrowahanol wrth iddyn nhw adael y carchar.



Un enghraifft ydy offeryn ar-lein o’r enw Turning Pages. Mae hyn yn helpu pobl i ddarllen.




- Mae’r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cydweithio.





Mae GIG Lloegr yn gweithio i wella gofal iechyd i bobl niwrowahanol yn y carchar. Maen nhw’n sefydlu grŵp o hyrwyddwyr gofal iechyd.



Maen nhw’n gweithio gyda charchardai i wneud yn siŵr eu bod yn gwybod sut i gefnogi pobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig.





Mae’r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ysgrifennu Strategaeth ar gyfer Anafiadau i’r Ymennydd.



Byddan nhw'n dweud sut mae pethau'n mynd gyda'r Strategaeth Anafiadau i'r Ymennydd mewn 6 mis.

- Mae Llywodraeth Cymru yn gofalu am beth sy'n digwydd yng Nghymru.





Maen nhw'n mynd i gyfarfodydd Grŵp y Llywodraeth ac yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Maen nhw wedi canfod:




- o faint o bobl niwrowahanol yng Nghymru sydd angen cymorth.



- o pa wasanaethau sydd ar gael i bobl niwrowahanol yng Nghymru.




Maen nhw wedi ysgrifennu cynllun i wella pethau yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys pobl yn y SCT.




## Syniad 2 – Sgrinio

**Dyma ddwedodd yr adroddiad:**




Mae angen 1 ffordd o sgrinio pobl yn y SCT i ganfod ydyn nhw'n niwrowahanol.

share information




A ffordd o rannu gwybodaeth am ba gymorth sydd ei angen ar rywun.

Cytunodd y Llywodraeth fod sgrinio a chefnogi pobl yn bwysig.




Doedden nhw ddim yn siŵr mai dim ond 1 ffordd o sgrinio pobl ddylai fod.



## Diweddariad 6 mis



Edrychwyd ar yr arfau sgrinio sy'n cael eu defnyddio yn y SCT.



Dydyn ni ddim bob amser angen gwybod pa gyflyrau sydd ar bobl.




Mae angen i ni wybod pa gymorth sydd ei angen arnyn nhw.

Mae'r adnoddau ar gyfer y carchar a'r gwasanaeth prawf yn cael eu hystyried ac yn cael eu gwella.




Bydd gwybodaeth yn mynd i gynlluniau cefnogi carcharorion.




Bydd sgrinio'n helpu'r SCT i wybod pa gefnogaeth sydd ei hangen er mwyn iddyn nhw allu cymryd rhan.




Bydd sgrinio'n helpu'r SCT i brynu'r gwasanaethau addysg priodol yn y carchar yn 2025.




Rydyn ni'n edrych ar sut gallwn ni rannu gwybodaeth yn well drwy ddefnyddio cyfrifiaduron.





HM Prison & Probation Service

Bydd y Rheolwyr Cymorth Niwroamrywiaeth newydd yn helpu'r Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf i weithio gyda'i gilydd.




Mae'r Heddlu'n cynnal asesiad risg i benderfynu oes rhaid i bobl aros yn y celloedd.




Maen nhw eisiau i'r asesiad risg ddweud wrthyn nhw:




- Ydy rhywun yn niwrowahanol.

- Pa gymorth sydd ei angen ar y person hwn.



Maen nhw'n gweithio gyda phobl sydd â phrofiad bywyd i feddwl am hyn.





## Syniad 3 – Cyfrif




**Dywedodd yr adroddiad:**

Mae angen i ni gyfri faint o bobl niwrowahanol sy'n defnyddio'r SCT.

Bydd hyn yn ein helpu i gynllunio cymorth i'r bobl sydd ei angen.




Cytunodd y Llywodraeth y byddai cyfrif pobl yn helpu i gynllunio'n dda.





Roedden nhw'n dweud y byddai'n haws gwybod sut mae cyfrif ar ôl i ni wybod sut bydd sgrinio'n gweithio.



## Diweddariad 6 mis



Pan fydd pobl yn mynd i drwbl am y tro cyntaf, dydyn nhw ddim bob amser yn cael eu sgrinio am niwrowahaniaeth.



Weithiau, dim ond os bydd rhywun yn cael ei anfon i'r carchar, neu'n cael ei roi ar brawf, y bydd sgrinio'n digwydd.



Mae'r heddlu'n edrych ar ba orsafoedd heddlu sy'n dda am sgrinio a sut gall gorsafoedd heddlu eraill ddysgu sut i wneud hyn yn well.





Weithiau, dydy cofnodion sgrinio ddim yn dda iawn.




Mae’r Gweithgor wedi edrych ar:

- Sut gall SCT gael dulliau sgrinio gwell.




- Sut mae modd rhannu gwybodaeth am sgrinio yn well.




Maen nhw’n credu bod hyfforddiant staff yn bwysig.

HM Prison & Probation Service




Mae’r Gwasanaeth Carchardai, y Gwasanaeth Prawf a’r Gwasanaeth Addysg yn cydweithio.




Maen nhw’n edrych ar sut i gasglu a rhannu gwybodaeth er mwyn:





- Gwella cymorth i bobl niwrowahanol.





- Mae'r gwasanaethau yn cael eu cynllunio'n dda.





Mae Pasbortau Adsefydlu yn gynlluniau i helpu pobl i baratoi ar gyfer bywyd y tu allan i'r carchar.



Maen nhw wedi cael eu profi mewn 5 carchar. Daeth y prawf i ben yn 2022.




## Syniad 4 – Hyfforddiant




**Dywedodd yr adroddiad:**


Mae angen y sgiliau a'r wybodaeth iawn ar bobl sy'n gweithio yn y SCT.
Dylai pobl niwrowahanol helpu gyda hyn.

Cytunodd **y Llywodraeth** fod angen y sgiliau a'r wybodaeth gywir ar staff. Roedden nhw eisiau gwybod mwy am beth oedd yn digwydd yn barod.



# Diweddariad 6 mis

## Yr Heddlu




Yn syniad 1, rydyn ni'n sôn am rannu enghreifftiau o gymorth da.





Bydd hyn yn helpu swyddogion yr heddlu i wybod mwy am helpu pobl niwrowahanol.




Bydd gwybodaeth am niwroamrywiaeth mewn canllawiau sy'n dweud wrth yr Heddlu sut i weithredu.



## Llysoedd a Dedfrydu




Bydd pob ynad a chynghorydd cyfreithiol yn cael hyfforddiant. Bydd hyn yn digwydd erbyn 2024.



Mae'r hyfforddiant yn trafod:

- Trin pobl niwrowahanol yn deg.



- Dedfrydu a thriniaeth.



## Carchar a Phrawf




Mae 4 gwasanaeth newydd ar gael i helpu pobl niwrowahanol sydd ar brawf.





Bydd y gwasanaethau’n cefnogi pobl niwrowahanol a staff prawf.





Mae tîm y Rheolwr Cymorth Niwroamrywiaeth yn ysgrifennu fframwaith.




Bydd hyn yn gwneud yn siŵr fod pobl sy’n gweithio mewn carchardai a’r gwasanaeth prawf yn gwybod beth sydd ei angen ganddynt.




Bydd y fframwaith yn dweud bod yn rhaid i’r cymorth ganolbwyntio ar yr unigolyn.





Bydd y fframwaith yn barod yn gynnar yn 2023.







Bydd y Rheolwyr Cymorth Niwroamrywiaeth newydd yn hyfforddi staff carchardai ac yn eu helpu i roi cymorth da.




Mae ‘Pecyn Cymorth Hyfforddiant Niwroamrywiaeth Cenedlaethol’ newydd ar gael. Mae hwn ar gyfer yr holl staff sy’n gweithio gyda phobl yn y carchar neu ar brawf.



## Syniad 5 – Addasiadau


**Dyma ddwedodd yr adroddiad:**




Mae angen i’r SCT wneud newidiadau i gefnogi pobl niwrowahanol yn dda.




Cytunodd y Llywodraeth fod newidiadau’n bwysig.



Mae hefyd yn gwybod ei bod yn anodd newid rhai adeiladau.




## Diweddariad 6 mis





Yn syniad 1, rydyn ni’n sôn am rannu enghreifftiau o gymorth da.






Bydd hyn yn helpu Swyddogion yr Heddlu i feddwl am addasiadau.

**Carchardai a Phrawf**




Gall barnwr roi dedfryd gymunedol i bobl yn hytrach na’u hanfon i’r carchar.



Gall dedfryd gymunedol ddweud bod yn rhaid i bobl gael help gyda rhywbeth fel ei bod yn llai tebygol y byddan nhw’n mynd i drwbl eto. Gall hyn fod yn bethau fel helpu i roi’r gorau i yfed.




Mae rhai dedfrydau cymunedol yn cael eu newid er gwell ar gyfer pobl niwrowahanol.





Yn syniad 1, roedden ni’n sôn am Achrediad Awtistiaeth. Bydd hyn yn helpu carchardai i gefnogi pobl niwrowahanol yn well.




Bydd y Rheolwyr Cymorth Niwroamrywiaeth newydd yn helpu gydag addasiadau mewn carchardai.


**Adsefydlu**




Yn syniad 1, roedden ni'n sôn am yr adnodd ar-lein i bobl ei ddefnyddio i helpu gyda darllen.





Mae hyn yn cael ei brofi i weld ydy pobl sy'n defnyddio'r adnodd yn mynd i lai o drwbl yn y dyfodol.




Bydd y prawf yn dod i ben ym mis Hydref 2023.



## Syniad 6 - Gweithio gyda'n gilydd




**Dyma ddwedodd yr adroddiad:**

Dylai'r SCT, gwasanaethau lleol ac elusennau weithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr fod pobl niwrowahanol yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw.



Dylai'r cymorth hwn atal pobl rhag mynd i drwbl yn y lle cyntaf.


Os bydd pobl yn mynd i drwbl, dylai cymorth eu helpu i gadw allan o drwbl yn y dyfodol.




Cytunodd y Llywodraeth.



## Diweddariad 6 mis




Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi dechrau Grŵp y Llywodraeth a'r Gweithgor.




Maen nhw wedi cynnal cyfarfodydd gyda:

- Pobl â phrofiad bywyd
- Gwasanaethau Lleol
- Elusennau



Mae llawer o'r pethau yn yr wybodaeth yma wedi cynnwys syniadau o'r hyn a ddywedodd pobl yn y cyfarfodydd hyn.

---

KeyRing ... We're Life Changing

Cynhyrchwyd gan KeyRing a'r Grŵp Gweithio er Cyfiawnder.

easy on the i